

## Sbwriel a Chymunedau

Gall sbwriel effeithio ar:

### Iechyd Corfforol



Os oes sbwriel dros y strydoedd i gyd, bydd pobl yn llai tebygol o fynd am dro neu i redeg. Gall hyn arwain at bobl yn mynd yn anffit ac yn ordrwm. Bydd sbwriel hefyd yn annog llygod ffrengig, a all lledaenu afiechyd.



### Iechyd meddwl

Os nad aiff pobl allan gymaint, gallant fynd yn ynysig ac yn unig. Mae gweld sbwriel bob dydd hefyd yn gallu digalonni pobl oherwydd ei fod yn dangos nad yw pobl yn poeni am y lle maent yn byw.

### Cyfraddau trosedd

Pan fydd pobl yn taflu sbwriel, mae'n arwydd nad yw pobl yn poeni. Gall hyn arwain at graffiti, a difrodi eiddo pobl eraill. Gall hefyd arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol.



### Cymunedau'n symud i ffwrdd

Os yw pobl yn digalonni ar eu cymunedau, byddant yn symud i ffwrdd a bydd pobl eraill yn penderfynu peidio â symud i'r ardal. Mae hyn yn golygu bod pobl yn mynd yn fwy ynysig, ac yn aml bydd problemau yn mynd yn waeth.